

No.

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2022

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr R. Crowley, K.F. McCaffer a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Swyddog Cyfreithiol (Bro Morgannwg) Swyddogion Trwyddedu (Bro Morgannwg), Mr Scott McCarthy (Heddlu De Cymru – Trwyddedu).

Eglurodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y drefn i'w defnyddio ar gyfer y gwrandawriad a dywedodd fod copi o'r drefn ar gael o fewn yr agenda.

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – BOD Y Cynghorydd J.W. Thomas gael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawriad yr Is-bwyllgor.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Cais ar gyfer Cymeradwyo Trwydded Safle – Barry West End Club and Institute, 54 St Nicholas Road, Y Barri –

Dywedodd y Swyddog Cyfreithiol fod Asiant yr Ymgeisydd wedi derbyn cais i aildrefnu'r gwrandawriad er mwyn iddyn nhw allu bod yn bresennol.

Yn absenoldeb yr Ymgeisydd a'i Asiant, cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu y cyd-destun a oedd wedi'i nodi yn y cais ysgrifenedig a dywedodd fod gohebiaeth bellach wedi dod i law gan yr Asiant mewn perthynas â'i argaeledd ar gyfer dyddiadau amgen.

No.

Yn dilyn hynny, holodd y Cadeirydd am yr aelodaeth a'r weithdrefn hysbysu ar gyfer cytuno ar wrandawriad eilaidd, a dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr ymgynghorir â phob parti sy'n bresennol ar y pryd i fynychu'r gwrandawriad a aildrefnwyd yn unol â therfynau amser hysbysiadu statudol (cyhoeddi'r agenda) y Cyngor. Felly, byddai dyddiad amgen priodol yn cael ei ddisbarthu i bob parti gan y Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn y gwrandawriad.

Ar ôl ystyried papurau'r gwrandawriad a gyflwynwyd gerbron yr Is-bwyllgor, awgrymodd y Swyddog Cyfreithiol, pe cytunid ar wrandawriad wedi'i aildrefnu, y byddai Gwasanaeth Heddlu De Cymru yn cael cyfle i gynhyrchu tystiolaeth bellach i ategu ei wrthwynebiadau ysgrifenedig a dderbyniwyd eisoes. Mewn ymateb a chytundeb, nododd Cynrychiolydd Heddlu De Cymru awgrym y Swyddog Cyfreithiol.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cadeirydd ynghylch a ellid cyfryngu'r mater cyn unrhyw wrandawriad pellach o ystyried pa mor agos yw'r gwrthwynebiadau a'r cais a dderbyniwyd, cadarnhaodd Cynrychiolydd Heddlu De Cymru y byddai'r drafodaeth rhwng y Gwasanaeth a'r Ymgeisydd yn parhau cyn trefnu unrhyw wrandawriadau yn y dyfodol ac y byddai unrhyw ganlyniadau'n cael eu trosglwyddo i'r Awdurdod Lleol cyn gynted â phosibl. Hefyd, dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, er mwyn bod yn dryloyw â'r cyhoedd ac yn unol ag unrhyw benderfyniadau gan yr Is-bwyllgor, y byddai angen gwrandawriad eilaidd, a chyd-destun y cais a nodwyd bryd hynny.

Ar ôl i'r cais i aildrefnu gael ei gymeradwyo gan holl Aelodau'r Is-bwyllgor a Chynrychiolydd Heddlu De Cymru sy'n bresennol, penderfynwyd gan yr Is-bwyllgor

PENDERFYNWYD - Y dylai'r gwrandawriad gael ei aildrefnu i ddyddiad arall i'w gadarnhau.

Y rheswm dros y penderfyniad

Cytuno ar y cais i aildrefnu'r gwrandawriad fel y'i derbyniwyd gan Asiant yr Ymgeisydd.

D.S: Ers y gwrandawriad a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2022, roedd Adran Drwyddedu'r Awdurdod Lleol wedi derbyn cadarnhad gan Wasanaeth Heddlu De Cymru bod eu sylwadau yn gwrthwynebu wedi'u cyfryngu yn dilyn trafodaethau pellach rhyngddyn nhw ac Asiant yr Ymgeisydd. Felly rhoddwyd y cais gan yr Awdurdod Lleol ar 17 Mawrth 2022 heb fod angen gwrandawriad pellach.